S4C – GALWAD AM SYNIADAU

Pecyn o Gynnwys Ffurf Fer ar gyfer Cyfryngau Cymdeithasol (2027/28)

Mae S4C yn chwilio am syniadau creadigol, ffres a difyr ar gyfer **pecyn blynyddol o gynnwys ffurf fer, fertigol**, i'w gyhoeddi ar Instagram, Facebook a TikTok yn ystod blwyddyn ariannol 2027/28 (Ebrill 2027 – Mawrth 2028).

Gwerth y pecyn **£200,000**,

Rydyn ni eisiau cynnwys sy'n dathlu Cymru, ein pobl, ein hiaith a'n diwylliant mewn ffyrdd annisgwyl, cyfoes a thwymgalon

Y Cyfle

Bydd S4C yn comisiynu **pecyn o gynnwys ffurf fer gwerth £200,000** i'w gynhyrchu a'i gyhoeddi drwy gydol blwyddyn ariannol 2027/28.

Rydyn ni'n gwahodd cwmnïau cynhyrchu a chrewyr cynnwys i gyflwyno cynnig ar gyfer y pecyn cyfan, gyda chynllun creadigol a chynhyrchu sy'n gwneud y defnydd gorau o'r gyllideb.

Gall y pecyn gynnwys fformatau rheolaidd, syniadau unigol, cynnwys amserol a fideos wedi'u creu'n benodol ar gyfer digwyddiadau a diwrnodau cenedlaethol.

Rydyn ni eisiau gweld **cydbwysedd rhwng ansawdd, nifer y fideos a gwerth am arian**, gyda chynllun cyhoeddi ymarferol sy'n sicrhau presenoldeb creadigol a chyson i S4C drwy gydol y flwyddyn. Mi fydd gofyn i gyfleu'r cynnwys i'w gael ei ddosbarthu gan dîm cyfryngau cymdeithasol S4C.

Y Briff Golygyddol

Rydyn ni eisiau cynnwys sy'n dathlu'r hyn sy'n gwneud Cymru'n arbennig, ein pobl, ein hiwmor, ein llenyddiaeth, ein traddodiadau a'n creadigrwydd.

Mae diwrnodau cenedlaethol a digwyddiadau diwylliannol yn gyfleoedd allweddol, gan gynnwys **Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Miwsig Cymru, yr Eisteddfodau** ac achlysuron eraill sy'n bwysig i gynulleidfaoedd Cymru.

Ond dydyn ni ddim eisiau cynnwys dathlu traddodiadol yn unig.

Sut allwn ni droi'r achlysuron hyn yn gynnwys y'n gwneud i bobl wennu synnu, ymateb neu rannu ymysg ei gilydd.

Rydyn ni eisiau cynnwys sy'n teimlo'n berthnasol drwy gydol y flwyddyn, nid ar ddiwrnodau arbennig yn unig.

Cynnwys ar gyfer pob platfform

Mae angen i'r cynigion ddangos dealltwriaeth glir o **Instagram, Facebook a TikTok**, a'r gwahanol gynulleidfaoedd sy'n defnyddio'r platfformau hynny.

Dydyn ni ddim eisiau'r un cynnwys wedi'i ailgyhoeddi ym mhobman heb ystyried sut mae pobl yn ei ddefnyddio.

Rydyn ni eisiau i chi feddwl am beth sy'n gweithio orau ar bob platfform, sut mae dal sylw, a beth sy'n gwneud i bobl wylio, ymateb a rhannu.

Does dim rhaid i bob syniad ymddangos ar bob platfform. Dylai'r cynnig esbonio'r dewisiadau creadigol hynny.

Talent, tôn ac arddull

Rydyn ni'n agored i syniadau sy'n cynnwys crewyr cynnwys, digrifwyr, cerddorion, cyflwynwyr neu dalent newydd.

Gall y cynnwys fod yn ddoniol, yn annisgwyl, yn gynnes neu'n gwbl wahanol i'r hyn rydyn ni wedi'i weld o'r blaen.

Rydyn ni eisiau **cynnwys sydd wedi'i greu ar gyfer cyfryngau cymdeithasol o'r cychwyn cyntaf**, nid darnau sy'n teimlo fel rhaglenni teledu wedi'u torri'n fyrrach.

Mae'r Gymraeg yn ganolog i'r pecyn, a dylai'r cynnwys adlewyrchu'r ffordd naturiol ac amrywiol mae pobl yn defnyddio'r iaith heddiw.

Fydd angen sicrhau bod y cynnwys a'r cynnig yn gwbl wahanol i be mae S4C yn ei gynnig ar blatfformau Hansh

Beth rydyn ni eisiau yn y cynnig?

- **Y weledigaeth greadigol:** Beth yw eich syniad cyffredinol ar gyfer y pecyn?
- **Y cynnwys:** Enghreifftiau o gynnwys y byddwch chi'n cynhyrchu?
- **Y platfformau:** Sut fydd y cynnwys yn wahanol ar Instagram, Facebook a TikTok?
- **Y calendr:** Sut fyddwch chi'n defnyddio diwrnodau cenedlaethol, digwyddiadau diwylliannol ac achlysuron eraill drwy gydol 2027/28?
- **Y talent:** Pwy fydd yn creu'r cynnwys?
- **Y cynllun cyflawni:** Faint o fideos fyddwch chi'n eu cynnig, a sut fyddan nhw'n cael eu dosbarthu dros y flwyddyn?
- **Y gyllideb:** Sut fyddwch chi'n defnyddio'r £200,000 i sicrhau cynnwys o ansawdd uchel a gwerth am arian?
- **Y gynulleidfa:** Pam fydd pobl eisiau gwylio a rhannu'r cynnwys?

Rydyn ni'n croesawu enghreifftiau gweledol, syniadau ar gyfer fideos penodol ynghyd a gwaith blaenorol sy'n dangos eich dealltwriaeth o'r platfformau.

Yr Uchelgais

Rydyn ni eisiau pecyn sy'n rhoi cyfle i S4C **ddiddanu cynulleidfaoedd, dathlu ein diwylliant a rhannu creadigrwydd Cymru** drwy gydol y flwyddyn.

Cynnwys sy'n gwneud i bobl chwerthin, teimlo'n falch, darganfod rhywbeth newydd – ac, yn bwysicaf oll, eisiau ei rannu.

Cyllideb: Hyd at £200,000.

Nid oes angen cynnig cyllideb 36 atodlen ar y pwynt hwn.

Patrwm posibl o dri darn o gynnwys gwreiddiol wythnosol – bydd disgwyl i gynnwys pob platfform fod yn wahanol :
1 x TikTok
1 x Instagram
1 x Facebook

Sut i gyflwyno syniad

Bydd angen i bob pitsh fod ar ffurf 'deck slide' gan gynnwys:

- Esiamplau o gynnwys
- Amserlen cyhoeddi
- Esboniad clir o pam S4C, pam nawr, pwy mae'n apelio atynt a pham ei fod yn berthnasol i'r gynulleidfa yna?
- Strategaeth platfformau
- Gwybodaeth am y tîm creadigol allweddol

Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch eich syniad at syniad@s4c.cymru erbyn 12:00 ar ddydd Iau 28 Ionawr 2027.

Dylid cyflwyno'r ceisiadau ar ffurf PDF dim mwy na 10 tudalen.

Byddwn yn cadarnhau derbyn y syniad drwy e-bost.

Mae gwefan gynhyrchu S4C http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/ yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys gwybodaeth dechnegol, gytundebol a chyfleu os oes cwestiwn am y prosesau cynhyrchu gennych.

Mae'n fwriad gan Guto Rhun, Comisiynydd Digidol ddod i benderfyniad cyn diwedd mis Chwefror 2027. Cedwir yr hawl i addasu'r amserlen a hysbysir ein bwriad drwy e-bost. Os byddwch yn llwyddiannus bydd angen i'r syniad gael ei roi ar system gomisiynu S4C Cwmwl. Ni ddylid gwneud hyn cyn cael y gwahoddiad.